
Harbyrau

DEDDF HARBYRAU 1964 (WEDI DIWYGIO)

Y GORCHYMYN ADOLYGU (CYFANSODDIAD) HARBWR SAUNDERSFOOT ARFAETHEDIG 2020

RHYBUDD O GAIS AM ORCHYMYN ADOLYGU HARBWR

1. RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN BOD Comisiwn Harbwr Saundersfoot wedi cyflwyno cais i Weinidogion Cymru am Orchymyn Adolygu Harbwr o dan adran 14 o'r Ddeddf Harbyrau 1964 ("Deddf 1964").
2. Chwenychir y Gorchymyn er mwyn tanategu'r buddsoddiad a'r datblygiad sylweddol sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan y Comisiynwyr o ran y cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd yn yr harbwr, ac er mwyn gwireddu'r cyfrifoldeb fel porthladd ymddiriedolaeth i gefnogi'r gymuned leol ac economi twristiaeth.
3. Byddai'r Gorchymyn arfaethedig trwy ddiwygio Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011 yn newid cyfansoddiad Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot. Byddai'r gorchymyn yn darparu penodi Comisiynwyr newydd gan y Comisiynwyr eu hunain ar ôl ymgynghori gyda phwyllgor enwebu; diweddarau a chynyddu pwerau a gosod terfynau ar fuddsoddi; amrywio cyfansoddiad y panel cynghori; caniatáu cydnabyddiaeth i Gomisiynwyr trwy ddirprwyo pwerau i bwyllgor cydnabyddiaeth.
4. Yn ychwanegol, byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn gosod pwerau mewn perthynas â chyflwyno cyfarwyddiadau cyffredinol a phenodol oddi fewn i derfynau Harbwr Saundersfoot a diwygio is-ddeddfau cyffredol er mwyn rheoleiddio gweithgareddau llongau er lles sicrhau diogelwch mordwyo a chydymffurfiant â Chod Diogelwch Porthladd Morol.
5. Oblegid yr argyfwng COVID 19 dim ond ar-lein y gellir canfod copïau o'r Gorchymyn drafft i'w harchwilio nes y daw'r cyfnod dau ddiwrnod a deugain a nodir isod i ben.
6. Gellir gweld y Gorchymyn drafft a'r wybodaeth gysylltiol ar wefan Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot [<https://www.saundersfootharbour.co.uk/>](https://www.saundersfootharbour.co.uk/) yn ogystal â gwefan Gweinidogion Cymru [.<https://gov.wales/ports-harbour>s](https://gov.wales/ports-harbour>s) .
7. Nid yw paragraff 16 o Atodlen 3 Deddf Harbyrau 1964 (sy'n ymwneud â gwybodaeth am brosiect sy'n debyg o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd mewn unrhyw Ardal Economaidd Ewropeaidd Aelod Wladwriaeth arall) yn berthnasol i'r cais.
8. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno anfon gwrthwynebiad neu sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch y cais ysgrifenu at: Tîm Polisi Porthladdoedd, Trafnidiaeth - Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd neu e-bostio matt.edwards@gov.wales [<mailto:matt.edwards@gov.wales>](mailto:matt.edwards@gov.wales)
9. Dylai gwrthwynebiad neu sylw:
 - i. gael ei dderbyn cyn terfyn y cyfnod o 42 diwrnod gan gychwyn ar y dyddiad ar waelod y rhybudd hwn;
 - ii. gael ei gyflwyno mewn ysgrifen gan ddyfynnu cyfeirnod WGHRO-2020-01;
 - iii. nodi seiliau'r gwrthwynebiad neu'r sylwad;
 - iv. dynodi pwy sy'n cofrestru gwrthwynebiad neu sylwad; a
 - v. chynnwys cyfeiriad lle gall gohebiaeth yn ymwneud â'r gwrthwynebiad neu'r sylwad ei anfon.
10. Ni all unrhyw wrthwynebiad neu sylwad a dderbynnir gan Weinidogion Cymru gael eu trin yn gyfrinachol ac fe fyddan nhw'n cael eu rhoi gerbron Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot yn ogystal â chael eu gwneud yn gyhoeddus ar-lein. Dylai gwrthwynebiadau a sylwadau ymatal rhag cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol.
11. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno copi o unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau eraill a dderbynnir i Gomisiynwyr Harbwr Saundersfoot.
12. Os caiff gwrthwynebiad i'r cais ei dderbyn a heb ei dynnu nôl gall Gweinidogion Cymru fwrw ati i gynnal ymchwiliad. Caiff unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir felly a heb eu tynnu nôl, ac unrhyw sylwadau a dderbynnir, eu hystyried gan Weinidogion Cymru i benderfynu ynghylch y cais.

Dyddiwyd 18fed Mehefin 2020

Michael Davies, Prif Weithredwr, Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot